# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU
# 11 MEHEFIN 2018

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Llun, 11 Mehefin 2018.

**YN BRESENNOL:**
**Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: David Cox a Mike Reece

**SWYDDOGION CYNGOR SIR Y FFLINT**
Cyfreithiwr (Mr Tim Dillon), Arweinydd Tîm Trwyddedu (Gemma Potter) ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd (Nicola Gittins)

**YMGEISYDD – AR RAN CHESHIRE RETAIL NW LTD**
Mr Navin Soni a'i gydweithwraig Kelly Brighter

**PARTÏON Â CHYSYLLTIAD**
Mr Mark Griffiths (Perchennog y Swyddfa Bost leol)
Y Cynghorydd Billy Mullin (aelod lleol yn siarad ar ran Mr Griffiths)
Mrs Jones (ar ran y sylwadau a wnaethpwyd gan Marian Griffiths a oedd ddim yn mynd i fod yn bresennol)
Mrs Pritchard (ar ran llofnodwyr y ddeiseb)

**YMDDIHEURIADAU**
Dim.

**1. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**2. CAIS AM DRWYDDED EIDDO**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad a oedd yn gwahodd Aelodau i ystyried a phennu cais o dan Ddeddf Drwyddedu 2003 ar gyfer Trwydded Safle i Thrifty's, 7 Ffordd Broughton Hall, Brychdyn, Sir y Fflint.

Roedd yr ymgeisydd wedi gwneud cais am gyflenwi alcohol i'w yfed oddi ar y safle o ddydd Llun i ddydd Sul 07:00 tan 22:00.

Cyflwynwyd sylwadau gan Mr Mark Griffiths, perchennog y Swyddfa Bost leol, a deiseb gan aelodau'r gymuned leol i gefnogi ei lythyr. Roedd sylwadau wedi cael eu derbyn hefyd gan Mrs Marian Griffiths, mam Mr Griffths.

Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cadarnhau nad oedd gan y Swyddog sy'n gyfrifol am yr ardal unrhyw wrthwynebiadau i'r cais. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cadarnhau na fyddent yn gwneud unrhyw sylwadau am y cais.

Roedd y camau yr oedd yr ymgeisydd yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu yn cael eu gosod allan yn Atodiad E yr adroddiad ac roedd y cais wedi cael ei hysbysebu yn y dull cywir.

**Sylwadau gan yr Ymgeisydd**

Cyfeiriodd Mr Soni at y ddeiseb a oedd wedi'i chyflwyno a dywedodd bod llawer o'r enwau ar y rhestr yn dod o du allan i'r ardal leol. Teimlai bod gwrthdaro buddiannau yn gysylltiedig â Mr Griffiths gan ei fod yn berchennog ar y Swyddfa Bost leol a phe bai'r cais hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai'n arwain at gystadleuaeth iach yn yr ardal, rhywbeth a welwyd gyda phob siop Thrifty arall.

Dywedodd nad oedd gan yr Heddlu unrhyw wrthwynebiadau i'r cais ac ychwanegodd y byddai camerâu TCC yn recordio y tu fewn a thu allan i'r siop bob amser a fyddai o bosibl yn lleddfu ofnau Mr Griffiths am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddai'r offer TCC a'r lluniau a gynhyrchir o safon uchel a byddai gan y siop weithredwyr TCC hyfforddedig. Darparodd fanylion am *Challenge 25* ac enghreifftiau o ble'r oedd hyn wedi'i orfodi mewn siopau Thrifty eraill. Roedd gan Thrifty 9 o drwyddedau mewn siroedd gwahanol ac nid oedd unrhyw un o'r siopau hynny wedi cael problemau gyda chwsmeriaid dan oed yn ceisio prynu alcohol. Nod y cwmni oedd gwneud i'w cwsmeriaid deimlo'n ddiogel a'u croesawu.

Hefyd, dywedodd bod y safle yn arfer bod yn siop Co-op a oedd yn berchen ar drwydded. Teimlai y byddai dod â'r adeilad hwn, a oedd wedi bod yn wag am gyfnod hir, i ddefnydd eto yn helpu i leihau nifer y bobl ifanc sy'n ymgasglu yn yr ardal. Mynegodd ei ddymuniad i weithio gyda'r gymuned i gadw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gorffennol.

**Sylwadau gan y Partïon â Chysylltiad**

Diolchodd y Cynghorydd Mullin i'r Cadeirydd am adael iddo siarad ar ran Mr Griffiths. Ei brif bryder oedd agosrwydd safleoedd eraill yn yr ardal sydd hefyd yn gwerthu alcohol a teimlai y byddai hyn yn creu problemau gyda phobl ifanc.

Esboniodd yr ymgeisydd bod y cwmni yn fanwerthwr cyfrifol ac roedd alcohol yn ategol i'r nwyddau eraill a werthir yn y siop.

**Cwestiynau**

Gofynnodd y Cynghorydd Sharps i Mrs Jones a oedd ganddi unrhyw beth i'w ychwanegu ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal ac ailadroddodd y pwyntiau am ymddygiad gwrthgymdeithasol presennol a amlinellwyd yn y llythyr cyflwyno gan Marian Griffiths.

Gofynnodd y Cynghorydd Sharps a oedd y partïon â chysylltiad yn teimlo y byddai camerâu TCC ychwanegol yn fanteisiol i'r ardal. Ymatebodd y Cynghorydd Mullin trwy ddweud bod camerâu TCC yn weithredol yn y Ganolfan Gymunedol lle mae pobl ifanc hefyd yn ymgasglu. Er gwaethaf y buddsoddiad mewn offer ac yn y cynllun, nid oedd yr Heddlu wedi gweithredu ar gudd-wybodaeth a roddwyd iddyn nhw. Esboniodd yr ymgeisydd, pe bai un o'u siopau eraill yn ffonio'r Heddlu byddent yn ymweld â'r safle, a credai y byddai'r un peth yn digwydd yn yr ardal hon hefyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Reece pa fanwerthwyr eraill yn yr ardal oedd â thrwydded safle.

Dywedodd y Cynghorydd Cox ei fod yn gwerthfawrogi’r pryderon am agosrwydd y lleoedd a oedd yn gwerthu alcohol ond ni allai weld unrhyw dystiolaeth i ddangos bod hynny’n creu problemau ar hyn o bryd. Ychwanegodd bod siopau sy’n agos at ei gilydd yn gweithio’n dda ac yn annog masnach ychwanegol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Sharps, darparodd yr ymgeisydd fanylion am hyfforddiant y byddai staff a Goruchwylydd Dynodedig y Safle yn ymgymryd ag o. Yn dilyn cwestiwn gan y Cyfreithiwr, esboniodd yr ymgeisydd bod arfarniadau staff wedi cael eu cyflwyno yn y cwmni yn ddiweddar a byddai’r rhain yn cael eu cynnal gan reolwr pob siop.

Darparodd enghraifft o ddyddiau cynnar y cwmni pan oedd alcohol wedi cael ei werthu i rywun dan oed. Dysgwyd gwersi o hynny a byddai dau aelod o staff ar y safle bob amser a byddai camerâu TCC yn chwarae rhan fawr yn eu busnes. Gellid cadw lluniau camerâu TCC am hyd at 4 wythnos ond pe bai angen cadw unrhyw ddata byddai’n cael ei drosglwyddo i ddyfais addas a’i gadw am gyfnod amhenodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Sharps am fanylion yr oriau a oedd yn berthnasol yn yr ardal gyfagos ar gyfer gwerthu alcohol. Esboniodd y Swyddog Trwyddedu bod gan y Swyddfa Bost drwydded ar gyfer dydd Llun - dydd Sadwrn 06:00 – 23:00, dydd Sul 07:00 – 22:30; roedd gan Simply Drinks drwydded ar gyfer dydd Llun – dydd Sadwrn 08:00 – 23:00, dydd Sul 10:00 – 22:30; ac roedd gan Co-op drwydded ar gyfer dydd Llun - dydd Sul 06:00 – 23:00. Roedd gan bob un o’r rhain drwydded hirach na’r un yr ymgeisir amdani heddiw.

**<u>Penderfyniad</u>**

Gadawodd yr ymgeisydd, y partïon dan sylw a’r Swyddog Trwyddedu yr ystafell tra bo’r cais yn cael ei ystyried gan yr Is-bwyllgor. Ystyriodd yr Is-bwyllgor yr holl sylwadau a wnaethpwyd a daeth i’r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth benodol i awgrymu bod unrhyw un o’r amcanion trwyddedu yn Neddf Trwyddedu 2003 wedi cael eu tanseilio. Nododd yr Is-bwyllgor sylwadau’r ymgeisydd ynglŷn â’r amcanion trwyddedu ac roeddent yn fodlon na fyddai’r amcanion hynny yn cael eu tanseilio. Cymeradwywyd y cais fel yr ymgeisiwyd amdano gan gynnwys yr holl gamau i gyflawni’r amcanion trwyddedu. Gwahoddwyd yr holl bartïon â chysylltiad i ddod yn ôl i'r ystafell ac fe'u hysbyswyd o'r penderfyniad.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Cymeradwyo’r cais.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 11.00 a.m.)